sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Newyddion plant y BBC a rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU

## Ymgynghoriad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 15 Tachwedd 2019
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 13 Rhagfyr 2019

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn egluro safbwyntiau cychwynnol Ofcom ynghylch cais gan y BBC i wneud newidiadau i’w Drwydded Weithredu er mwyn darparu mwy o newyddion i blant drwy'r wefan Newsround, ac i ddarparu mwy o gynnwys newydd i blant ar BBC iPlayer. Rydym yn gwahodd safbwyntiau gan bobl eraill hefyd.**

Mae arferion gwylio plant wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyrhaeddiad darllediadau ar y teledu i blant yn parhau i ostwng, tra bod gwasanaethau teledu fideo ar-alw fel Netflix, a gwasanaethau ar-lein fel YouTube yn dal i ddod yn fwyfwy poblogaidd. Mae cyfran y plant sy’n honni eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy cyffredinol wedi bod yn cynyddu hefyd. Mae’r nifer sy’n gwylio sianeli CBeebies a CBBC y BBC, sy’n benodol ar gyfer plant, wedi gostwng yn sydyn. Nawr, dim ond traean o’i gynulleidfa darged mae Cbeebies yn ei gyrraedd, a dim ond tua un o bob chwech o’r gynulleidfa darged mae CBBC yn ei gyrraedd.[1]

Wrth ystyried y newidiadau hyn, mae’n rhaid i’r BBC arloesi ac addasu ei ddull o wasanaethu cynulleidfaoedd iau. Mae’r BBC yn cydnabod hyn ac maent wedi cyflwyno cynigion i Ofcom ynghylch sut gallai ymgysylltu’n well â phlant drwy ei wasanaethau ar-lein. Er mwyn gallu symud ymlaen â’r cynlluniau hyn, mae’r BBC wedi cyflwyno cais i wneud newidiadau i’r Drwydded Weithredu.

Wrth ystyried cynigion y BBC ymysg ffactorau eraill, rydym ni wedi asesu sut bydd y newidiadau arfaethedig yn cyfrannu at sut mae’r BBC yn cyflawni allbwn unigryw, ei genhadaeth, a’i ddibenion cyhoeddus. Rydym hefyd wedi ystyried effaith bosibl newidiadau arfaethedig y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

### Yr hyn rydym ni’n ei gynnig

**Rydym yn cytuno ei fod yn gwneud synnwyr i’r BBC ddarparu mwy o gynnwys ar-lein i blant.** Oherwydd newidiadau mewn arferion ar y cyfryngau plant, efallai bydd hyn yn helpu’r BBC i ymgysylltu’n well â’i gynulleidfaoedd ieuengaf sy’n hanfodol i’w lwyddiant yn y dyfodol.

**Felly, ein bwriad yw derbyn cais y BBC i wneud newidiadau i’w Drwydded Weithredu, ond gyda mesurau diogelu pwysig ychwanegol.** Bydd y rhain yn sicrhau bod y BBC yn cynnal ansawdd darlledu cynnwys plant ar ei sianeli llinol, a’i fod yn monitro effaith ei gynlluniau ar-lein yn gywir.

### Y newidiadau arfaethedig i Drwydded Weithredu'r BBC

**Dyma’r newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Drwydded Weithredu’r BBC yr ydym ni’n bwriadu eu derbyn:**

- Lleihau cyfanswm y newyddion y mae'n rhaid i’r BBC ei ddarlledu ar CBBC o 85 awr i 35 awr y flwyddyn; ei ganiatáu i ddangos newyddion unwaith y diwrnod yn hytrach nag yn achlysurol drwy

[1] Mae’r rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU gan y BBC (wedi’i ddiweddaru 24 Chwefror 2019) yn disgrifio Cbeebies fel “sianel sy’n darparu amrywiaeth o raglenni i addysgu ac i ddifyrru plant ifanc iawn” ac yn disgrifio CBBC fel “sianel amserlen gymysg ar gyfer plant cyn iddynt gyrraedd eu harddegau”. BBC, 2019. Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.

gydol y dydd; a chyflwyno gofyniad newydd ar y BBC i ddarparu newyddion dyddiol i blant ar-lein drwy amrywiaeth o gynnwys, ac mewn fformatau gwahanol ar y wefan Newsround.

- Lleihau cwota rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU ar gyfer cynnwys plant o 400 i 350 awr. Mae hyn yn gyfystyr â'r gostyngiad arfaethedig o 50 awr yn nifer yr oriau darlledu o newyddion llinol i blant ar CBBC.
- Diwygio'r diffiniad o raglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU er mwyn galluogi'r BBC, yn ei gwotâu rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU, i ystyried cynnwys plant sy'n cael eu comisiynu yn arbennig ar gyfer BBC iPlayer, neu sy'n cael eu rhyddhau ar BBC iPlayer yn unig.

## Risgiau a chamau diogelu

**Mae ein hasesiad o gynlluniau'r BBC wedi nodi rhai risgiau posibl.** Mae gennym bryderon y gallai rhai grwpiau o blant fod ar eu colled o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. Hefyd, mae gennym amheuon ynghylch pa mor debygol yw plant o ymgysylltu â rhagor o ddarpariaeth ar-lein gan y BBC.

I liniaru'r risgiau posibl hyn, rydym yn cynnig newidiadau pellach i'r Drwydded Weithredu sy'n ychwanegol i'r rhai y gofynnwyd amdanynt gan y BBC, ynghyd â mesurau ychwanegol i fonitro ac adrodd:

- I sicrhau bod y BBC yn datblygu hyd a lled ei wasanaeth newyddion ar-lein i blant, rydym yn bwriadu newid amod arfaethedig newydd y BBC ar gyfer newyddion ar-lein. Bydd yr amod rydym yn bwriadu ei gyflwyno yn golygu y bydd rhaid i'r BBC ddarparu newyddion ar-lein i blant drwy gynnwys: sy'n cael ei ddarparu mewn nifer o wahanol fformatau, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o bynciau, ac sy'n cynnwys newyddion a dadansoddiadau manwl.
- Rydym yn bwriadu cyflwyno gofynion trwydded newydd i sicrhau bod y BBC yn cynnal ansawdd sianeli llinol i blant. Bydd hyn yn golygu y bydd rhaid i o leiaf hanner cynnwys gwreiddiol y BBC sy'n cael eu darlledu am y tro Cyntaf yn y DU ar gyfer plant ifanc  a phlant cyn oed ysgol gael eu darlledu naill ai yn gyntaf ar sianeli CBBC a Cbeebies, neu gael eu darlledu ar y sianeli hyn ar ôl y dangosiad cyntaf ar BBC iPlayer.
- Gan ein bod yn bwriadu darparu mwy o hyblygrwydd i'r BBC. Bydd yn bwysig bod mesurau effeithiol ar waith gan y BBC i ddangos sut mae'n cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei holl blatfformau gan gynnwys y platfform ar-lein. Rydym yn disgwyl i'r BBC fonitro ac adrodd ar effaith y newidiadau hyn yn ei fframwaith mesur perfformiad.
- Hefyd, byddwn yn monitro effaith y newidiadau hyn yn agos, ac yn ychwanegu metrigau newydd i'n fframwaith mesur perfformiad ar gyfer y BBC. Byddwn yn adrodd yn gyhoeddus arno o leiaf unwaith y flwyddyn.

**Os bydd gennym bryderon am berfformiad y BBC o ran darparu cynnwys i blant yn y dyfodol, byddwn yn cymryd y camau priodol i sicrhau ei fod yn cwrdd â'i ymrwymiadau o dan y Siarter a'r Cytundeb.** Efallai bydd y camau hyn yn cynnwys gosod gofynion mwy rhagnodol yn Nhrwydded Gweithredu'r BBC.

**Rydym nawr yn gofyn am safbwyntiau gan bartïon sydd â diddordeb neu bartïon mae hyn yn effeithio arnynt ynghylch y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn erbyn 13 Rhagfyr 2019.**